Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Annwyl Gyfaill,

**Galwad am wybodaeth – cynigion ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25**

Mae Pwyllgorau Senedd Cymru yn ceisio gwybodaeth i lywio eu gwaith craffu ar gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Mae gennym ddiddordeb mewn ymchwilio i'r disgwyliadau o ran Cyllideb 2024-25, gan gynnwys parodrwydd ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol ac effaith Cyllideb 2023-24.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb amlinellol ddrafft a'r Gyllideb fanwl ddrafft gyda'i gilydd ar 19 Rhagfyr 2023, a'r Gyllideb derfynol ar 27 Chwefror 2024.

Mae'r **Pwyllgor Cyllid** yn edrych ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru o safbwynt strategol a chyffredinol. Rydym hefyd yn cydweithio â phwyllgorau eraill y Senedd i sicrhau y caiff cynigion ar gyfer adrannau neu bortffolios gweinidogol penodol eu hystyried yn fanwl. Bydd y pwyllgorau yn cynnal eu sesiynau eu hunain i ganolbwyntio ar dystiolaeth er mwyn edrych yn fanwl ar yr agweddau ar y Gyllideb sydd o fewn eu cylchoedd gwaith hwy. Gellir cael manylion pellach am Bwyllgorau'r Senedd a phroses y gyllideb yn **Atodiad 1**.

Yn y papur hwn, rydym wedi nodi cwestiynau penodol yn **Atodiad 2**. Gallwch ateb unrhyw un neu bob un o'r cwestiynau, neu gallwch roi gwybod i ni beth yw eich barn yn gyffredinol ar y Gyllideb Ddrafft.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu, gan ofyn barn unigolion a sefydliadau ar feysydd y dylid eu blaenoriaethu yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u hadlewyrchu yn **Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu y Pwyllgor** a fu o gymorth i lywio **dadl yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru**, a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023.

**Datgelu gwybodaeth**

Cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor, gwnewch yn siŵr eich bod wedi ystyried **polisi'r Senedd ar ddatgelu gwybodaeth**. Neu gellir gofyn am gopi caled o'r polisi hwn drwy gysylltu â'r Clerc, Owain Roberts (0300 200 6388 **seneddcyllid@senedd.cymru**).

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

**Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor**

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor Cyllid, erbyn **dydd Iau, 30 Tachwedd 2023**. Os hoffech gyfrannu ond eich bod yn pryderu na fyddwch yn gallu cyflwyno eich tystiolaeth erbyn y dyddiad cau, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor ar 0300 200 6388.

Mae gan y Senedd ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg. Yn unol â **Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd**, mae’r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrafodion y Senedd gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno’n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â’u rhwymedigaethau statudol.

Mae **canllawiau ar gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ymgynghoriadau Pwyllgorau** ar gael ar wefan y Senedd.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Atodiad 1 – Gwybodaeth gefndir**

**Pwy ydyn ni?**

Pwyllgor trawsbleidiol yn Senedd Cymru yw'r **Pwyllgor Cyllid** sy'n cynnwys Aelodau o blith y tair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd.

Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adrodd ar gynigion a roddwyd gerbron Senedd Cymru gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau.

**Pa Bwyllgorau eraill sy'n craffu ar y gyllideb?**

Dyma'r Pwyllgorau eraill sy'n cynnal gwaith craffu ar y gyllideb:

– Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
– Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
– Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
– Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
– Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
– Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
– Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
– Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

**Beth yw Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru?**

Rhaid i gynigion y Gyllideb Ddrafft gynnwys manylion ynghylch faint o adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol ddilynol a ffigurau dangosol ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol ar ôl hynny. Yn fwy penodol, dylai amlinellu gwybodaeth ynghylch:

- y defnydd o adnoddau ac arian parod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- sut y bydd cynigion gwariant yn cael eu hariannu, gan gynnwys cynlluniau trethiant a benthyca.
- Incwm sydd i'w gadw gan y sefydliadau hynny (yn hytrach na chael ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru).

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu dogfen naratif sy'n nodi dyraniadau o fewn adrannau, sut mae cynigion yn cyd-fynd â blaenoriaethau a'r canlyniadau a ddymunir. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu rhagolygon o drethi, benthyca a dyled.

**Pam nad ydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn ar ôl i gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi?**

Ni fydd ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn eithrio rhanddeiliaid rhag hefyd ddarparu gwybodaeth, tystiolaeth, pryderon ac awgrymiadau ynghylch meysydd craffu posibl i bwyllgorau Senedd Cymru **ar ôl** i'r cynigion amlinellol neu'r cynigion manwl ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi.

Mae'r amser sydd ar gael i randdeiliaid awgrymu meysydd pryder i'r pwyllgorau yn brin iawn ar ôl i fanylion y Gyllideb Ddrafft gael eu cyhoeddi. Wrth ymgynghori yn awr, gobeithiwn y bydd gan randdeiliaid ragor o amser i ystyried effaith bosibl y Gyllideb.

**Atodiad 2**

Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. Beth, yn eich barn chi, fu effaith Cyllideb 2023-24 Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid sy'n gysylltiedig ag adfer yn sgil y pandemig? A fu polisïau cymorth busnes Llywodraeth Cymru yn effeithiol, o ystyried y rhagolygon economaidd ar gyfer 2024-25?

2. Sut y dylai / gall Llywodraeth Cymru gefnogi'r economi a busnes yn dilyn y pandemig, Brexit a chwyddiant a phwysau economaidd eraill?

- Pa mor barod yn ariannol yw'ch sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Sut y bydd chwyddiant yn effeithio ar eich gallu i ddarparu eich amcanion arfaethedig, a pha mor gadarn yw'ch gallu i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod?

3. Pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i helpu aelwydydd i ymdopi â chwyddiant a phroblemau costau byw?

- Sut y dylai'r Gyllideb fynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau trefol, cymunedau ôl-ddiwydiannol a chymunedau gwledig, ac wrth gefnogi economïau o fewn y cymunedau hynny?

4. A yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddatblygu economi fwy gwyrdd yn glir ac yn ddigon uchelgeisiol? Ydych chi'n credu bod digon o fuddsoddiad yn cael ei gyfeirio at fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a'r argyfwng natur? A oes unrhyw fylchau posibl o ran sgiliau y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn cyflawni'r cynlluniau hyn?

6. A yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r mecanweithiau ariannol sydd ar gael iddi o ran benthyca a threthiant yn effeithiol.

7. Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol eraill wrth graffu ar y Gyllideb. A oes gennych unrhyw sylwadau penodol o ran y meysydd a nodir isod:

- A oes digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â chostau byw cynyddol ac i gefnogi'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol?
- Sut allai'r gyllideb fynd i'r afael ymhellach ag anghydraddoldeb rhywedd mewn meysydd fel gofal iechyd, sgiliau a chyflogaeth?
- A yw dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran gwariant ataliol yn cael ei gynrychioli wrth ddyrannu adnoddau (gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);
- Sut y dylai Llywodraeth Cymru egluro ei phenderfyniadau ariannu, gan gynnwys sut mae ei gwariant yn cyfrannu at y broses o fynd i'r afael â materion polisi?
- Sut y gellir gwella'r ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'i Chyllideb Ddrafft?

- Sut y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hadnoddau i fynd i'r afael â rhestrau aros y GIG ar gyfer triniaethau GIG sydd wedi'u cynllunio a thriniaethau nad ydynt yn rhai brys. A ydych chi'n credu bod gan Lywodraeth Cymru gynllun cadarn i fynd i'r afael â'r mater hwn?
- A yw Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth ddigonol i'r sector cyhoeddus i'w alluogi i fod yn arloesol ac yn flaengar wrth gyflawni gwaith fel cynllunio'r gweithlu.
- A oes buddsoddiad digonol wedi bod gan Lywodraeth Cymru mewn seilwaith sylfaenol yn y sector cyhoeddus?
- A oes digon o fuddsoddiad mewn seilwaith wedi'i dargedu at bobl ifanc?
- Sut y mae tystiolaeth a data yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu’r gyllideb, ac a yw ei dull gweithredu’n amlwg?
- A yw'r gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i sefydliadau'r trydydd sector, sy'n wynebu galw cynyddol am eu gwasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r pandemig, yn ddigonol?
- Beth yw'r cyfleoedd allweddol i Lywodraeth Cymru fuddsoddi i gefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni’r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn well?